Annwyl gyfaill,

**Adolygiad o Siarter Frenhinol y BBC**

Ysgrifennaf mewn ymateb i adolygiad yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon o Siarter Frenhinol y BBC a'r trefniadau cyllido yn y dyfodol, er mwyn rhannu tystiolaeth Comisiynydd y Gymraeg ynghylch pwysigrwydd y penderfyniadau hyn i ddarlledu Cymraeg ac i'r economi greadigol yng Nghymru.

Sefydlwyd Comisiynydd y Gymraeg o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 i hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg. Wrth arfer y swyddogaethau hyn, caiff y Comisiynydd roi cyngor a sylwadau i unrhyw berson. Yn y cyd-destun hwnnw, ac fel eiriolwr annibynnol dros siaradwyr Cymraeg, hoffwn bwysleisio bod yn rhaid ystyried darpariaeth a chynaliadwyedd darlledu Cymraeg fel ystyriaeth ganolog o fewn Adolygiad y Siarter Frenhinol.

Mae darlledu cyfrwng Cymraeg o bwysigrwydd diwylliannol, cymdeithasol ac economaidd sylweddol, ac mae'n dibynnu'n helaeth ar gyllid cyhoeddus. Er bod y Papur Gwyrdd yn cynnwys ymrwymiad clir i ddarparu cyllid cynaliadwy i'r BBC ac i S4C, mae ansicrwydd o hyd ynghylch manylion y trefniadau cyllido yn y dyfodol a natur y bartneriaeth rhwng S4C a'r BBC mewn tirwedd ddigidol sy'n newid. Byddai unrhyw fodel cyllido yn y dyfodol sy'n tanseilio sefydlogrwydd darlledu cyhoeddus drwy gyfrwng y Gymraeg yn peri risgiau gwirioneddol i ffyniant diwylliant Cymru a'r iaith Gymraeg.

S4C a'r BBC yw prif ddarparwyr darlledu Cymraeg yng Nghymru. S4C yw'r unig ddarlledwr teledu cyhoeddus cyfrwng Cymraeg, sy'n gweithredu ar draws llwyfannau teledu a digidol, tra mai'r BBC yw'r unig ddarparwr gwasanaethau radio sy'n darlledu'n gyfan gwbl drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae gan y BBC hefyd ddyletswydd statudol i ddarparu o leiaf 520 awr o gynnwys teledu Cymraeg i S4C bob blwyddyn. Mae darpariaeth Gymraeg o fewn darlledu masnachol yn parhau'n hynod gyfyngedig. Mae hyn yn amlygu rôl ganolog y BBC a'r system cyllido cyhoeddus yn diwallu anghenion cynulleidfaoedd Cymraeg eu hiaith.

Mae darlledu Cymraeg yn chwarae rôl hanfodol wrth normaleiddio'r iaith, gan ddarparu cyfleoedd dyddiol i bobl glywed a defnyddio'r Gymraeg, a chefnogi siaradwyr presennol a dysgwyr fel ei gilydd. Mae'r rôl hon yn arbennig o bwysig yn yr amgylchedd digidol cyfoes, lle mae cynnwys Saesneg yn dominyddu defnydd cyfryngau byd-eang. Er bod tystiolaeth yn dangos bod gwasanaethau Cymraeg yn llwyddo i gyrraedd cynulleidfaoedd, gan gynnwys gwylwyr iau, mae heriau amlwg o ran sicrhau bod cynnwys cyfrwng Cymraeg yn weladwy ac yn hawdd ei ddarganfod. Mae hyn yn enwedig o amlwg wrth i gynulleidfaoedd droi'n gynyddol at wasanaethau ffrydio digidol.


Y tu hwnt i'w bwysigrwydd ieithyddol a diwylliannol, mae darlledu cyfrwng Cymraeg yn gwneud cyfraniad sylweddol at yr economi greadigol yng Nghymru. Mae'n creu galw am sgiliau Cymraeg, yn cefnogi cyflogaeth ar draws y diwydiannau creadigol, ac yn galluogi cwmnïau cynhyrchu annibynnol a chadwyni cyflenwi lleol i ddatblygu. Mae'r cyfraniad hwn yn arbennig o arwyddocaol mewn cymunedau lle mae'r Gymraeg ar ei chryfaf. Mae ymchwil a gomisiynwyd gan S4C yn dangos traweffaith economaidd cryf ar fuddsoddiad

cyhoeddus, gan amlygu gwerth economaidd ehangach darlledu Cymraeg i Gymru ac i'r Deyrnas Unedig.

Yng nghyd-destun Adolygiad y Siarter Frenhinol, hoffwn bwysleisio na ddylai darlledu drwy gyfrwng y Gymraeg gael ei asesu ar sail "gwerth am arian" yn unig. Mae darlledu mewn iaith leiafrifol yn cyflawni dibenion cyhoeddus ehangach, gan gynnwys cefnogi hawliau ieithyddol, hunaniaeth ddiwylliannol, cydlyniant cymdeithasol a datblygiad economaidd. Rhaid felly i drefniadau'r Siarter a'r cyllid yn y dyfodol arwain at ddiogelu, cryfhau ac ehangu darpariaeth Gymraeg, gan sicrhau y gall barhau i addasu i newid digidol a chyfrannu'n llawn at nod Llywodraeth Cymru o gyrraedd miliwn o siaradwyr erbyn 2050, a dyblu'r defnydd dyddiol o'r Gymraeg.

Gweler ynghlwm ein hymateb i gwestiynau'r ymgynghoriad.

**Yn gywir,**



**Efa Gruffudd Jones**
Comisiynydd y Gymraeg

## Cenhadaeth a Dibenion Cyhoeddus y BBC

**1. Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylai Cenhadaeth a Dibenion Cyhoeddus presennol y BBC aros yr un fath?**

- Cytuno - Dylai Cenhadaeth a Dibenion Cyhoeddus y BBC aros yr un fath
- Anghytuno - Dylai Cenhadaeth a Dibenion Cyhoeddus y BBC newid
- Ddim yn siŵr/dim barn

**2. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylai'r BBC gael Diben Cyhoeddus penodol i gefnogi twf economaidd?**

- Cytuno'n gryf - Dylid yn bendant ychwanegu Diben Cyhoeddus sy'n ceisio cefnogi twf yr economi greadigol.
- Cytuno - Mae'n debyg y dylid ychwanegu Diben Cyhoeddus sy'n ceisio cefnogi twf yr economi greadigol.
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno - Dim barn y naill ffordd na'r llall.
- Anghytuno - Mae'n debyg na ddylid ychwanegu Diben Cyhoeddus sy'n ceisio cefnogi twf yr economi greadigol.
- Anghytuno'n gryf - Yn bendant, ni ddylid ychwanegu Diben Cyhoeddus sy'n ceisio cefnogi twf yr economi greadigol.
- Ddim yn siŵr

**3. Pa opsiwn, os o gwbl, sy'n cynrychioli orau eich teimladau ynghylch a ddylai'r BBC barhau i ddarparu amrywiaeth eang o gynnwys a gwasanaethau sy'n cynrychioli pob cynulleidfa mewn ffordd sy'n dod â chymunedau at ei gilydd, yn cefnogi cydlyniant cymdeithasol, ac yn helpu i greu stori genedlaethol unedig drwy gydol cyfnod nesaf y Siarter?**

- Dylai'r BBC wneud mwy i gynrychioli pob cynulleidfa. Dylai'r BBC ddarparu mwy o gynnwys a gwasanaethau sy'n ceisio cynrychioli pob cynulleidfa.
- Mae'r BBC yn gwneud digon i gynrychioli pob cynulleidfa. Ar hyn o bryd, mae digon yn cael ei wneud i sicrhau bod pob cynulleidfa'n cael ei chynrychioli. Dylai'r BBC barhau i ddarparu cynnwys a gwasanaethau sy'n ceisio cynrychioli pob cynulleidfa.
- Nid yw'r BBC yn gwneud digon i gynrychioli pob cynulleidfa, ond ni ddylid cymryd unrhyw gamau pellach. Ar hyn o bryd, nid oes digon yn cael ei wneud i sicrhau

bod pob cynulleidfa'n cael ei chynrychioli. Fodd bynnag, mae meysydd eraill y dylai'r BBC ganolbwyntio arnynt yn hytrach na darparu mwy o gynnwys a gwasanaethau sy'n ceisio cynrychioli pob cynulleidfa.

- Mae'r BBC yn gwneud gormod i gynrychioli pob cynulleidfa. Dylai'r BBC ddarparu llai o gynnwys a llai o wasanaethau sy'n ceisio cynrychioli pob cynulleidfa.
- Dim barn y naill ffordd na'r llall
- Ddim yn siŵr

**4. Os ydych chi'n cytuno y dylai'r BBC barhau neu wneud mwy i wneud hyn, pa opsiynau sy'n ceisio gwella sut mae'r BBC yn adlewyrchu ac yn cynrychioli pob cynulleidfa ydych chi'n eu cefnogi, os o gwbl?** (Dewiswch bob un sy'n berthnasol)

- Cynhyrchu mwy o gynnwys sy'n unigryw i'r DU
- Rhoi sylw i genres nad ydynt yn cael cymaint o sylw gan ddarlledwyr eraill e.e. y celfyddydau, darlledu ieithoedd lleiafrifol
- Cynhyrchu mwy o gynnwys sy'n dod â phobl at ei gilydd ar adegau cyffredin
- Rhannu lleisiau a safbwyntiau amrywiol o bob rhan o'r DU
- Gwella amrywiaeth ar y sgrin ac oddi ar y sgrin
- Arall

  Mae darlledu Cymraeg yn hynod bwysig o safbwynt amlygrwydd y Gymraeg a chyfleoedd dyddiol i bobl glywed a defnyddio'r Gymraeg. Disgrifia strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru rôl allweddol y cyfryngau darlledu wrth adfywio'r Gymraeg yng Nghymru a phwysigrwydd rôl darlledwyr cyhoeddus o ran cynnwys Cymraeg a chodi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg.

- Dim angen newid
- Ddim yn siŵr / dim barn

## Sefydliad yr ymddiriedir ynddo

**5. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylid cyflwyno gofynion newydd ar y BBC er mwyn i'r BBC wneud mwy i wella safonau yn y gweithle?**

- Cytuno'n gryf - Dylid yn bendant gyflwyno gofynion newydd ar y BBC i wella safonau yn y gweithle.

- Cytuno - Mae'n debyg y dylid cyflwyno gofynion newydd ar y BBC i wella safonau yn y gweithle.
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno - Dim barn y naill ffordd na'r llall.
- Anghytuno - Mae'n debyg na ddylid cyflwyno gofynion newydd ar y BBC i wella safonau yn y gweithle.
- Anghytuno'n gryf - Yn bendant, ni ddylid cyflwyno gofynion newydd ar y BBC i wella safonau yn y gweithle.
- Ddim yn siŵr

**6. Sut, os o gwbl, mae'r swm sy'n cael ei dalu i'r rheini sy'n gweithio i'r BBC yn effeithio ar eich barn chi am y BBC?** Wrth ymateb, efallai y byddwch yn dymuno ystyried i ba raddau mae'n effeithio ar faint rydych chi'n ymddiried yn allbynnau'r BBC ac a yw'n effeithio ar faint rydych chi'n defnyddio gwasanaethau'r BBC. [blwch testun agored 200 gair]

**7. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno bod y BBC yn atebol i'r cyhoedd ar hyn o bryd?**

- Cytuno'n gryf - Mae'r BBC bron bob amser yn atebol i'r cyhoedd.
- Cytuno - Mae'r BBC yn atebol i'r cyhoedd gan mwyaf.
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno - Dim barn y naill ffordd na'r llall.
- Anghytuno - Anaml y mae'r BBC yn atebol i'r cyhoedd.
- Anghytuno'n gryf - Nid yw'r BBC bron byth yn atebol i'r cyhoedd.
- Ddim yn siŵr

**8. Pa rai o'r opsiynau canlynol sy'n ceisio gwella atebolrwydd y BBC, os unrhyw un, ydych chi'n eu cefnogi?** (Dewiswch bob un sy'n berthnasol)

- Ei gwneud yn ofynnol i'r BBC ddefnyddio fforymau ymgynghori, fel cynulliadau dinasyddion, er mwyn i benderfyniadau gynrychioli barn a lleisiau'r cyhoedd
- Ei gwneud yn ofynnol i'r BBC glywed safbwyntiau rhanbarthol drwy fframweithiau ymgynghori newydd neu strwythurau eraill, gan gynrychioli pob un o wledydd a/neu ranbarthau'r DU

- Gwella sut mae'r BBC yn cynnal ymchwil cynulleidfa i helpu i lywio'r broses o wneud penderfyniadau
- Cryfhau gofynion y Bwrdd i sicrhau bod y BBC yn ymgysylltu â'r cyhoedd mewn ffordd ystyrlon
- Newid strwythur y Bwrdd i wella ei effeithiolrwydd a'i atebolrwydd
- Newid proses benodi'r Bwrdd. Gallai hyn gynnwys lleihau rôl y llywodraeth wrth benodi i'r Bwrdd gan benodi'r Cadeirydd yn unig
- Egluro rolau a chyfrifoldebau aelodau'r bwrdd. Gallai hyn gynnwys nodi dyletswyddau'r Cadeirydd
- Gwella rôl aelodau annibynnol y bwrdd a'u gallu i ddal y BBC i gyfrif
- Cryfhau'r trefniadau craffu allanol ar y BBC. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, mwy o oruchwyliaeth gan Ofcom neu'r Senedd
- Arall (rhowch fanylion) [testun rhydd]
- Dim angen newid
- Ddim yn siŵr/dim barn

**9. Mae'r llywodraeth yn ystyried newidiadau wedi'u targedu i gynyddu tryloywder yn y BBC i wella atebolrwydd y BBC dros gyfnod nesaf y Siarter. Pa opsiynau, os o gwbl, ydych chi'n eu cefnogi?** (Dewiswch bob un sy'n berthnasol)

- Gwella'r ffordd y mae'r BBC yn cyfleu gwybodaeth bwysig fel ei bod yn glir, yn gryno ac yn ddealladwy i bawb
- Ei gwneud yn ofynnol i'r BBC gyfleu gwybodaeth bwysig yn well i randdeiliaid yn y diwydiant, yn enwedig i ddarlledwyr eraill yn y DU
- Ei gwneud yn ofynnol i'r BBC gyfleu rhagor o wybodaeth am ei broses gwyno, yn enwedig i'r rheini sy'n cyflwyno cwynion
- Ei gwneud yn ofynnol i'r BBC gyfleu mwy o wybodaeth am y broses ar gyfer dewis pa raglenni y dylid eu gwneud a'u darlledu
- Ei gwneud yn ofynnol i'r BBC gyfleu mwy o wybodaeth am ei benderfyniadau golygyddol
- Arall - rhowch fanylion [Blwch testun rhydd; dim mwy na 200 gair]
- Dim angen newid
- Ddim yn siŵr / dim barn

**10. Pam, os o gwbl, mae annibyniaeth y BBC yn bwysig i chi?** (Dewiswch bob un sy'n berthnasol)

- Mae'n caniatáu i'r BBC fod yn rhydd o ddylanwad y llywodraeth neu ddylanwad gwleidyddol yn y cynnwys mae'n ei ryddhau
- Mae'n caniatáu i'r BBC fod yn ddiduedd wrth adrodd ar etholiadau, polisïau'r llywodraeth a phleidiau gwleidyddol
- Mae'n caniatáu i'r BBC ddal y llywodraeth i gyfrif a/neu fod yn feirniadol o'r llywodraeth
- Mae'n caniatáu i'r BBC fod yn annibynnol yn olygyddol a gwneud y penderfyniad terfynol ynghylch pa straeon i roi sylw iddynt a sut i roi sylw iddynt.
- Mae'n caniatáu i'r BBC ddilyn ei agenda ei hun, heb ymyrraeth, er mwyn iddo allu darparu cynnwys sy'n gwasanaethu cynulleidfaoedd ledled y DU
- Arall (rhowch fanylion) [testun rhydd]
- Nid yw annibyniaeth y BBC yn bwysig i mi
- Ddim yn siŵr / dim barn

**11. Pa fesurau i gynyddu annibyniaeth y BBC ar y llywodraeth, os o gwbl, y dylid eu blaenoriaethu i gefnogi mwy o bobl i ymddiried yn y BBC a defnyddio gwasanaethau'r BBC?** Yn eich ymateb, efallai y byddwch yn dymuno egluro eich rhesymau a chynnwys tystiolaeth berthnasol.

Mae parhau i ddiogelu annibyniaeth olygyddol a gweithredol y BBC ac S4C yn hanfodol er mwyn sicrhau cynnwys sy'n gwasanaethu siaradwyr Cymraeg.

Rydym yn cytuno bod ymgysylltu â'r cyhoedd yn rhan bwysig o sicrhau atebolrwydd ac ymddiriedaeth. Rydym o'r farn y dylai'r BBC ymgysylltu yn benodol â siaradwyr Cymraeg, ac yn enwedig siaradwyr Cymraeg ifanc, yn hanfodol er mwyn deall eu profiadau, eu barn, a'u dyheadau.

Er nad yw'r ddogfen ymgynghori yn cynnig unrhyw opsiynau penodol o ran addasu hyd y Siarter, rydym o'r farn bod cael dyddiad gorffen penodol yn gallu arwain at ansicrwydd. Mae darparu sicrwydd ariannol hirdymor a chynaliadwy i'r BBC ac i S4C yn hanfodol o safbwynt darlledu cyfrwng Cymraeg. Byddai model ariannu mwy hir dymor a chynaliadwy yn sicrhau bod darpariaeth Cymraeg y BBC a S4C yn parhau i ffynnu ac yn parhau i greu gwerth economaidd a chymdeithasol i Gymru.

## Darparu gwasanaethau er budd y cyhoedd

**12. Beth ddylai'r BBC ganolbwyntio arno, os unrhyw beth, i sicrhau bod deallusrwydd artiffisial yn cael ei ddefnyddio er budd y cyhoedd, ac er budd y Diwydiannau Creadigol ehangach?** Dewiswch bob un sy'n berthnasol.

- Egluro'n dryloyw sut mae'n defnyddio deallusrwydd artiffisial ei hun, er enghraifft, wrth greu cynnwys a gwasanaethau
- Cael gofynion rheoleiddio newydd (er enghraifft, rhwymedigaethau tryloywder), i osod y safonau moesegol ar gyfer defnyddio deallusrwydd artiffisial mewn sefydliadau cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus
- Addysgu cynulleidfaoedd sut i adnabod lle mae deallusrwydd artiffisial wedi cael ei ddefnyddio, ac asesu dibynadwyedd gwybodaeth a chynnwys yn feirniadol
- Helpu cynulleidfaoedd i ddefnyddio deallusrwydd artiffisial eu hunain, er enghraifft, dysgu sgiliau cymell sylfaenol iddynt
- Dod o hyd i ffyrdd arloesol o ddefnyddio deallusrwydd artiffisial i sbarduno arbedion effeithlonrwydd yn y BBC ac yn y sector cyfryngau ehangach
- Bod yn gyswllt rhwng cwmnïau deallusrwydd artiffisial a chyfryngau gwasanaeth cyhoeddus llai sydd â llai o amser ac arian i negodi, gan helpu i gefnogi cydweithio yn ehangach
- Arall

  Mae datblygiadau ym maes technoleg a deallusrwydd artiffisial yn cynnig cyfleoedd cyffrous i gynyddu defnydd o'r Gymraeg. Mae sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei chynnwys o fewn datblygiadau technoleg a deallusrwydd artiffisial yn allweddol. Dylid cryfhau ymrwymiad y BBC i arloesi'n ddigidol, gan gynnwys helpu datblygu technolegau iaith Gymraeg. Byddai hyn yn cefnogi nod strategaeth Cymraeg 2050 i sicrhau bod y Gymraeg wrth wraidd arloesi mewn technoleg ddigidol i'w gwneud yn bosibl defnyddio'r Gymraeg ym mhob cyd-destun digidol. Rydym o'r farn bod hyn yn neilltuol bwysig o safbwynt sicrhau amodau ffafriol i gynyddu defnydd plant a phobl ifanc o'r Gymraeg yn y dyfodol.

- Ni ddylai'r Siarter newydd gyflwyno rhwymedigaethau sy'n ymwneud â deallusrwydd artiffisial ar gyfer y BBC
- Ddim yn siŵr / dim barn

**13. Pa fath o raglenni, os o gwbl, ydych chi'n meddwl y dylai'r BBC eu gwneud yn fwy amlwg ar ei lwyfannau?** (Dewiswch bob un sy'n berthnasol)

- Rhaglenni newyddion a materion cyfoes

- Rhaglenni celfyddydau, crefyddol a materion rhyngwladol (y cyfeirir atynt weithiau fel genres 'nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol')
- Rhaglenni plant ac addysg
- Rhaglenni sy'n dangos gwahanol leisiau a safbwyntiau o bob cwr o'r DU
- Rhaglenni sy'n berthnasol yn lleol
- Arall

  Mae'n hollbwysig bod rhaglenni Cymraeg yn weladwy ac yn hawdd i'w darganfod, yn enwedig wrth i gynulleidfaoedd droi'n gynyddol at ffrydio. Mae'r cyfryngau digidol a darlledu yn bwysig iawn ym mywydau plant a phobl ifanc heddiw. Mae heriau sylweddol i ddenu plant a phobl ifanc i wylio, darllen a gwrando ar gynnwys Cymraeg, yn enwedig o ystyried dylanwad darlledu a'r cyfryngau Saesneg. Er hynny, mae tystiolaeth a gasglwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg yn dangos bod plant a phobl ifanc yn dymuno gwylio, darllen a gwrando drwy gyfrwng y Gymraeg. Rhaid tynnu sylw at wasanaeth S4C i blant a phobl ifanc, yn ogystal â dysgwyr Cymraeg. Dyma ddarpariaeth allweddol ar gyfer cefnogi siaradwyr newydd a hybu'r defnydd a wneir o'r iaith. Gall ddangos fod y Gymraeg yn perthyn i bawb, hyd yn oed i wylwyr di-Gymraeg.

  Byddem yn gefnogol o unrhyw ymdrechion i sicrhau gwell amlygrwydd digidol i'r Gymraeg, gan gynnwys defnyddio technoleg er mwyn sicrhau bod cynnwys Cymraeg yn weladwy i siaradwyr Cymraeg ac yn hawdd i'w ddarganfod.

- Ni ddylai'r Siarter newydd fynnu bod y BBC yn gwneud mathau penodol o raglenni'n fwy gweladwy
- Ddim yn siŵr / dim barn

**14. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylai'r BBC ddefnyddio mwy ar lwyfannau trydydd parti i rannu ei gynnwys?**

- Cytuno'n gryf - Dylai'r BBC yn bendant ddefnyddio mwy ar lwyfannau trydydd parti i rannu ei gynnwys
- Cytuno - Mae'n debyg y dylai'r BBC ddefnyddio mwy ar lwyfannau trydydd parti i rannu ei gynnwys
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno - Dim barn y naill ffordd na'r llall
- Anghytuno - Ni ddylai'r BBC ddefnyddio mwy ar lwyfannau trydydd parti i rannu ei gynnwys
- Anghytuno'n gryf - Yn bendant, ni ddylai'r BBC ddefnyddio mwy ar lwyfannau trydydd parti i rannu ei gynnwys

- Ddim yn siŵr

**15. Meddyliwch am eich ymateb uchod, ac egluro pam rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylai'r BBC ddefnyddio mwy ar lwyfannau trydydd parti i rannu ei gynnwys.** Nodwch dystiolaeth berthnasol lle bo hynny'n bosibl.

Mae'r ymgynghoriad yn trafod y cwestiwn o ddefnyddio mwy ar lwyfannau trydydd parti i rannu cynnwys y BBC, er enghraifft YouTube. Nodir fod hyn yn arbennig o bwysig i gynulleidfaoedd iau sy'n defnyddio llai ar lwyfannau'r BBC ac sydd felly mewn perygl o golli allan ar ei raglenni gwasanaeth cyhoeddus hollbwysig. Dangosodd ymchwil gan Gomisiynydd y Gymraeg mai ychydig iawn o blant a phobl ifanc oedd yn nodi eu bod yn gwylio teledu'n gyson. Roedd mwy o gyfeirio at wylio ar-lein drwy blatfformau fel YouTube. Mae'n debygol felly y byddai defnyddio mwy ar lwyfannau trydydd parti yn galluogi mwy o bobl, yn enwedig plant a phobl ifanc, i ddarganfod a gwylio cynnwys drwy gyfrwng y Gymraeg. Gwyddom fod S4C eisoes yn cyhoeddi eu cynnwys ar ystod o blatfformau trydydd parti ac bod hyn yn bwysig o safbwynt hyrwyddo cynnwys cyfrwng Cymraeg, ac hefyd o ran ehangu cyfleoedd gwahanol i bobl wylio cynnwys cyfrwng Cymraeg.

Er ein bod felly yn gweld potensial amlwg i'r BBC ac i S4C ddefnyddio mwy ar lwyfannau o'r fath, mae'n hanfodol bod amlygrwydd priodol yn cael ei gynnig i gynnwys Cymraeg ar blatfformau trydydd parti. Rhybuddia'r Papur Gwyrdd bod heriau ariannol yn gysylltiedig â rhedeg llwyfannau dosbarthu lluosog ac nad yw llwyfannau eraill yn rhannu ymrwymiad y BBC i hysbysu, addysgu a diddanu. Mae'n bwysig felly cydnabod bod risg na fyddai gan lwyfannau trydydd parti chwaith yr un ymrwymiad i gynnig darpariaeth Gymraeg na rhoi amlygrwydd i'r iaith. Rydym yn annog y Llywodraeth i ystyried y materion hyn yn ofalus gan sicrhau bod amlygrwydd ar gyfer cynnwys Cymraeg yn cael ei warantu.

**16. Beth, os unrhyw beth, ydych chi'n credu fyddai'n gwella gwerth a pherthnasedd newyddion a materion cyfoes y BBC i chi? Mae hyn yn cynnwys holl gynnwys newyddion a materion cyfoes y BBC, gan gynnwys ei wasanaethau newyddion teledu, radio ac ar-lein, ac allbynnau newyddion lleol, cenedlaethol a rhyngwladol.**

- Canolbwyntio o'r newydd ar gywirdeb a didueddrwydd
- Nodi'n gliriach pryd mae cynnwys yn newyddion a phryd mae'n farn
- Canllawiau golygyddol cadarn a thryloyw ar waith yn gyson

- Esboniad gwell o’r penderfyniadau golygyddol a newyddiadurol a wneir wrth ohebu ar y newyddion
- Mwy o dryloywder pan fydd gwallau a chamgymeriadau’n cael eu gwneud
- Mwy o ymdrech i ystyried barn y cyhoedd yn ei ddarpariaeth newyddion
- Adrodd mwy o straeon newyddion sy’n lleol i chi
- Adrodd mwy o straeon newyddion rhyngwladol
- Tynnu sylw at straeon nad ydynt yn cael eu hadrodd gan gyfryngau eraill
- Arall

  Rydym yn croesawu datganiad y Papur Gwyrdd mai rhan hanfodol o’r Siarter barhaus fydd paratoi’r BBC ac S4C i ddarparu cynnwys perthnasol o ansawdd uchel i wasanaethu cynulleidfaoedd ieithoedd lleiafrifol. Nodir bod Diben Cyhoeddus 4 y BBC yn cyfeirio at adlewyrchu, cynrychioli a gwasanaethu cymunedau amrywiol holl wledydd a rhanbarthau’r Deyrnas Unedig. Mae’n hollbwysig bod straeon sy’n adlewyrchu cymunedau Cymru, gan gynnwys ein cymunedau Cymraeg, yn rhan o wasanaethau newyddion a materion cyfoes y BBC ac S4C yn y Gymraeg ac yn y Saesneg yn achos y BBC. Cefnogwn fwriad y Llywodraeth i ystyried y meysydd canlynol, sy’n berthnasol i’r egwyddor hon:

  - gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau newyddion lleol a chefnogi amgylchedd gwybodaeth iach
  - cefnogi cynaliadwyedd darlledu mewn ieithoedd lleiafrifol.

- Dim angen newid
- Ddim yn siŵr / dim barn

**17. Gan feddwl am gyfnod nesaf y Siarter, pa rôl, os o gwbl, ydych chi’n meddwl y dylai’r BBC ei chwarae o ran sicrhau bod dinasyddion y DU yn gallu adnabod a chael gafael ar wybodaeth ddibynadwy a chywir?** Cofiwch gynnwys unrhyw dystiolaeth berthnasol i gefnogi eich ateb.

Rydym yn cefnogi amcanion y Llywodraeth i sicrhau bod y BBC yn darparu newyddion a gwybodaeth ddibynadwy ac amgylchedd gwybodaeth iach lle mae newyddion diduedd a chywir ar gael i gefnogi dadl ddemocrataidd iach a hybu cydlyniant cymdeithasol. Nodir yn y Papur Gwyrdd bod y cyhoedd yn aml yn troi at y BBC am wybodaeth gywir ar adegau o argyfwng ac mai’r nod yw sicrhau bod pawb yn teimlo’n hyderus i ymddiried yn yr wybodaeth a gânt gan y BBC. Mae’r egwyddorion hyn yn bwysig iawn i siaradwyr Cymraeg yn ogystal ac mae gan y

BBC ac S4C rôl hanfodol wrth ddarparu'r gwasanaethau hyn iddynt drwy gyfrwng y Gymraeg.

**18. Mae allbwn rhyngwladol y BBC yn dangos y DU, ei diwylliant a'i gwerthoedd i gynulleidfa fyd-eang. Mae hyn yn cynnwys BBC World Service, sy'n ceisio darparu mynediad at newyddion dibynadwy ledled y byd mewn amgylchedd rhyngwladol sy'n fwyfwy heriol. I ba raddau ydych chi'n cytuno ei bod yn bwysig bod y BBC yn parhau i gyflawni'r rolau hyn yn rhyngwladol?**

- Cytuno'n gryf - Rhaid i'r BBC barhau i ddarparu'r rôl hon yn rhyngwladol
- Cytuno - Dylai'r BBC barhau i ddarparu'r rôl hon yn rhyngwladol
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno - Dim barn y naill ffordd na'r llall
- Anghytuno - Ni ddylai'r BBC barhau i ddarparu'r rôl hon yn rhyngwladol
- Anghytuno'n gryf - Rhaid i'r BBC beidio â pharhau i ddarparu'r rôl hon yn rhyngwladol
- Ddim yn siŵr

## Sbarduno twf ledled y DU

**19. Beth, os unrhyw beth, ydych chi'n ei werthfawrogi am y BBC yn gweithredu ledled y DU?** (Dewiswch bob un sy'n berthnasol)

- Dod â phobl o wahanol gymunedau ledled y DU at ei gilydd, gan gynnwys ei gwledydd a'i rhanbarthau
- Cynrychioli pobl o bob cwr o'r DU
- Adrodd straeon lleol i gynulleidfa genedlaethol
- Darparu newyddion lleol a gwybodaeth
- Arian yn cael ei wario mewn ardaloedd lleol
- Ysgogi clystyrau creadigol lleol (e.e. MediaCity ym Manceinion Fwyaf, pencadlys newydd y BBC yng Ngorllewin Canolbarth Lloegr), gan gynnwys drwy gefnogi'r sector cynhyrchu annibynnol.
- Datblygu swyddi a sgiliau ar gyfer pobl leol
- Arall

Mae rôl y BBC ac S4C yn darlledu drwy gyfrwng y Gymraeg yn eithriadol o bwysig o safbwynt amlygrwydd y Gymraeg a normaleiddio cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r

Gymraeg. Mae darlledu cyfrwng Cymraeg yn darparu newyddion, gwybodaeth ac adloniant i siaradwyr Cymraeg. Mae hefyd yn denu siaradwyr newydd ac yn eu cefnogi. Mae'n hanfodol gwarchod y ddarpariaeth hon a'i datblygu.

Rydym hefyd yn gwerthfawrogi'r ffaith bod y BBC ac S4C yn gweithredu yng Nghymru a thrwy gyfrwng y Gymraeg, sydd yn rhoi troedle economaidd pwysig i'r Gymraeg. Mae'r cyfryngau darlledu yng Nghymru yn rhoi gwerth i sgiliau Cymraeg yn y gwaith ac yn cynnig cyfleoedd gwaith yn y Gymraeg. Mae'r sector diwydiannau creadigol yn faes cyflogaeth lle gwelir galw clir am siaradwyr Cymraeg ac mae'n cynnig cyfleoedd amlwg i bobl ddefnyddio'r Gymraeg wrth weithio.

Mae cyfraniad economaidd ehangach gan y diwydiant darlledu Cymraeg yn cynnwys cefnogi cwmnïau annibynnol i dyfu a darparu swyddi i unigolion ar hyd a lled Cymru. Mae'r cyfraniad economaidd hwn yn arbennig o arwyddocaol yn y cymunedau hynny lle mae dwysedd uchel o siaradwyr Cymraeg. Mae'r diwydiant darlledu cyfrwng Cymraeg felly yn cyfrannu at hyfywedd y cymunedau hyn.

- Dim un o'r uchod
- Ddim yn siŵr

**20. (1) I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylai fod yn ofynnol i'r BBC ledaenu mwy o'i wariant, ei weithgareddau a'i benderfyniadau ar draws gwledydd a rhanbarthau'r DU?**

- Cytuno'n gryf - Dylai'r BBC yn bendant wneud mwy i ledaenu ei wariant, ei weithgareddau a'i benderfyniadau ar draws gwledydd a rhanbarthau'r DU.
- Cytuno - Mae'n debyg y dylai'r BBC wneud mwy i ledaenu ei wariant, ei weithgareddau a'i benderfyniadau ar draws gwledydd a rhanbarthau'r DU.
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno - Dim barn y naill ffordd na'r llall.
- Anghytuno - Mae'n debyg na ddylai'r BBC wneud mwy i ledaenu ei wariant, ei weithgareddau a'i benderfyniadau ar draws gwledydd a rhanbarthau'r DU.
- Anghytuno'n gryf - Yn bendant, ni ddylai'r BBC wneud mwy i ledaenu ei wariant, ei weithgareddau a'i benderfyniadau ar draws gwledydd a rhanbarthau'r DU.
- Ddim yn siŵr

**20.(2) Pa opsiwn (opsiynau), os unrhyw rai, byddech chi'n eu cefnogi er mwyn lledaenu effaith economaidd a rôl y BBC yn cefnogi'r sector cynhyrchu ar draws gwledydd a rhanbarthau'r DU?** (Dewiswch bob un sy'n berthnasol).

- Ei gwneud yn ofynnol i'r BBC ddatblygu strategaethau hirdymor ar gyfer datblygu'r sector creadigol rhanbarthol
- Rhagor o gwotâu neu rwymedigaethau ar gyfer cynhyrchu cynnwys y tu allan i Lundain a'r M25
- Targedau cwota newydd ar gyfer lleoli staff sy'n ymwneud â chomisiynu cynnwys ar draws gwledydd a rhanbarthau'r DU
- Newidiadau llywodraethu i roi mwy o reolaeth i arweinwyr rhanbarthol neu leol dros gomisiynu cynnwys dros eu cyllideb a'u penderfyniadau
- Newid y rheolau fel bod lleoliad yn cael ei ystyried wrth wneud penderfyniadau ynghylch comisiynu cynnwys gan gwmnïau cynhyrchu annibynnol
- Arall

Fel rydym yn nodi yn ein hymateb i gwestiwn 19 mae'r BBC a S4C yn creu gwerth economaidd a chymdeithasol sylweddol i Gymru, gan gynnwys swyddi, sgiliau a chadwyni cyflenwi creadigol. Byddem felly yn gefnogol i unrhyw strategaethau neu benderfyniadau fyddai'n golygu mwy o swyddi, a mwy o gynnwys yn cael ei greu yng Nghymru. Byddem hefyd yn croesawu bod y gwerth economaidd a chymdeithasol hwn yn cael ei ledaenu ar draws y wlad, gan gyfrannu ymhellach at gynaliadwyedd economaidd a chymdeithasol ardaloedd sydd â dwysedd uchel o siaradwyr Cymraeg.

- Dim un o'r uchod
- Ddim yn siŵr / dim barn

**21. Beth, os unrhyw beth, ydych chi'n meddwl y gallai'r BBC ei wneud i lenwi bylchau mewn sgiliau yn y sector creadigol?** Nodwch unrhyw dystiolaeth berthnasol lle bo hynny'n bosibl.**

Mae'r sector diwydiannau creadigol yn faes cyflogaeth lle gwelir galw clir am siaradwyr Cymraeg, yn enwedig yn y sector radio, cyfryngau rhyngweithiol, hysbysebu, ffilm ac animeiddio. Rydym felly yn credu y dylid gweithio mewn partneriaeth â chyflenwyr trydydd parti, darparwyr addysg, a cyrff yn y diwydiant er mwyn annog siaradwyr Cymraeg i hyfforddi a datblygu gyrfaoedd yn y diwydiant pwysig hwn. Dylid hyrwyddo ymwybyddiaeth pobl ifanc o lwybrau gyrfa yn y sector, pwysigrwydd sgiliau Cymraeg a'r posibilrwydd o gynnal gyrfa trwy gyfrwng y Gymraeg yn y maes. Mae hyn yn hanfodol er mwyn cynnal darlledu Cymraeg.

Yn ogystal ag annog siaradwyr Cymraeg i weithio yn y diwydiant, dylid hefyd ganolbwyntio ar ddatblygu sgiliau Cymraeg gweithlu'r sector creadigol yng Nghymru.

Byddai hyn yn cynnwys cyfleoedd i ddatblygu sgiliau Cymraeg yn ystod cyfnod addysg a hyfforddiant, trwy raglenni prentisiaethau, ac drwy gyfleoedd dysgu Cymraeg sy'n cael eu cynnig gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol.

**22. Os ydych chi'n cynrychioli sefydliad sydd wedi gweithio gyda'r BBC yn y gorffennol, rhannwch eich meddyliau a rhowch dystiolaeth o'ch profiad o sut mae eich partneriaeth wedi gweithio a sut gellid ei gwella.** Efallai yr hoffech ystyried sut gwnaethoch chi gysoni gweledigaeth a nodau ar gyfer y bartneriaeth, ymddiriedaeth, cyfathrebu, tryloywder, gwneud penderfyniadau, neu agweddau eraill ar weithio mewn partneriaeth.**

- Beth aeth yn dda?

Mae'r BBC wedi bod yn ddarostyngedig i Safonau'r Gymraeg ers 2017, ac o ganlyniad mae perthynas reoleiddiol wedi bodoli rhyngddi a'r Comisiynydd. Wrth osod a gweithredu'r Safonau, mae perthynas waith wedi datblygu sy'n seiliedig ar dryloywder ac ar barodrwydd y ddau sefydliad i ymgysylltu'n adeiladol.

Mae'n bwysig nodi bod Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn cynnwys eithriad penodol mewn perthynas â darlledu, sy'n golygu nad yw'r Safonau'n gymwys i'r graddau y maent yn ymwneud yn uniongyrchol â chynnwys neu weithgarwch darlledu. Fodd bynnag, nid yw'r eithriad hwnnw'n ymestyn i weithgareddau corfforaethol, gweinyddol na gwasanaethau i'r cyhoedd sy'n gysylltiedig â darlledu—megis gwasanaethau cynulleidfa, gwasanaethau corfforaethol neu weithgareddau Trwyddedu Teledu—lle mae'r Safonau'n parhau i fod yn gymwys.

Mae gweithredu'r eithriad hwn mewn ffordd glir a thryloyw wedi gofyn, mewn rhai achosion, am drafodaeth fanwl er mwyn sicrhau cyd-ddealltwriaeth o gwmpas cwmpas y Safonau a'u cymhwysiad ymarferol. Pan fo'r disgwyliadau hyn wedi'u deall yn gyson, mae'r berthynas reoleiddiol wedi gallu gweithredu'n effeithiol, gan alluogi datrysiadau sy'n ystyried cyd-destun gweithredol y BBC ac ar yr un pryd yn sicrhau bod dyletswyddau statudol y Gymraeg yn cael eu cynnal.

Yn y cyd-destun hwn, mae'r BBC wedi bod yn agored ynghylch heriau gweithredol—gan gynnwys y rhai sy'n deillio o'i statws fel corff Prydeinig sy'n gweithredu mewn cyd-destun ehangach na nifer o sefydliadau cyhoeddus eraill sy'n ddarostyngedig i'r Safonau—yn ogystal â risgiau posibl i gydymffurfiaeth. Mae dod i gytundeb ar faterion cydymffurfiaeth mewn amgylchiadau o'r fath yn dibynnu ar gyfathrebu clir ac effeithiol, ac mae hyn wedi arwain, mewn sawl achos, at atebion sy'n ystyried gofynion gweithredol y BBC a swyddogaeth statudol y Comisiynydd fel rheoleiddiwr.

Mae penodi cwmni annibynnol i weithredu ar ran y BBC yn ei gyfathrebu â'r Comisiynydd wedi cyfrannu at fwy o gysondeb yn y drafodaeth ac at well cyd-ddealltwriaeth o'r materion dan sylw.

Beth gellid ei wella?

Er bod y Safonau wedi eu gosod ar y sefydliad ers cryn amser, mae achosion yn parhau lle nad yw cwmpas y Safonau a'u perthnasedd i wasanaethau penodol y BBC bob amser yn cael eu deall yn gyson. Mae hyn yn gallu arwain at wahaniaethau mewn dehongliad.

Yn ogystal, bu heriau mewn rhai achosion diweddar o ran tryloywder a rhannu gwybodaeth mewn modd amserol a digon manwl, sydd wedi effeithio ar allu'r Comisiynydd i gael sicrwydd llawn ynghylch y cynnydd sy'n cael ei wneud tuag at gyflawni'r dyletswyddau statudol. Er bod ymrwymiadau wedi'u nodi i ddatblygu gwasanaethau penodol a gwella darpariaeth Gymraeg i'r cyhoedd, mae'r diffyg amserlenni clir a gwybodaeth fanwl wedi cyfyngu ar ein gallu i asesu gweithredu ymarferol a'r camau sy'n cael eu cymryd tuag at sicrhau cydymffurfiaeth.

**23. Os ydych chi'n ymateb ar ran sefydliad sydd â diddordeb mewn Ymchwil a Datblygu (e.e. cwmni cynhyrchu, prifysgol, cwmni caledwedd technoleg), sut hoffech chi weld y BBC yn cefnogi arloesedd?** Nodwch dystiolaeth berthnasol lle bo hynny'n bosibl. Yn eich ateb, efallai yr hoffech ystyried unrhyw feysydd penodol lle rydych chi'n meddwl y dylai ganolbwyntio ei arweinyddiaeth; ar ba bwynt yng nghylch bywyd ymchwil a datblygu y mae cymorth y BBC fwyaf gwerthfawr; a sut hoffech chi i'r BBC weithio mewn partneriaeth â sefydliadau fel eich un chi ym maes ymchwil a datblygu.

- [Blwch testun rhydd; 350 gair]
- Ddim yn siŵr / dim barn

**24. Os ydych chi'n cynrychioli sefydliad yn y diwydiannau creadigol, rhannwch eich meddyliau ar eich profiad o'r broses bresennol o reoleiddio'r effaith ar y farchnad a sut gellid ei gwella.** Nodwch dystiolaeth berthnasol lle bo hynny'n bosibl.

- Beth aeth yn dda? [Blwch testun rhydd; 350 gair]
- Beth gellid ei wella? [Blwch testun rhydd; 350 gair]

## Cyllid cynaliadwy a theg

**25. I ba raddau ydych chi'n cytuno y dylai ffi'r drwydded barhau i ariannu ystod eang o wasanaethau ac allbwn sy'n ceisio hysbysu, addysgu a diddanu cynulleidfaoedd?**

- Cytuno'n gryf - Dylai ffi'r drwydded yn bendant ariannu amrywiaeth eang o wasanaethau ac allbwn sy'n ceisio hysbysu, addysgu a diddanu.
- Cytuno - Dylai ffi'r drwydded ariannu amrywiaeth eang o wasanaethau ac allbwn sy'n ceisio hysbysu, addysgu a diddanu.
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno - Dim barn y naill ffordd na'r llall.
- Anghytuno - Ni ddylai ffi'r drwydded ariannu amrywiaeth eang o wasanaethau ac allbwn sy'n ceisio hysbysu, addysgu a diddanu.
- Anghytuno'n gryf - Yn bendant, ni ddylai ffi'r drwydded ariannu amrywiaeth eang o wasanaethau ac allbwn sy'n ceisio hysbysu, addysgu a diddanu.
- Ddim yn siŵr

**26. I ba raddau ydych chi'n cytuno y dylai'r BBC ddefnyddio'r cyllid mae'n ei gael drwy ffi'r drwydded i ddarparu amrywiaeth eang o fanteision i'r DU? Gallai hyn gynnwys amcanion fel buddsoddi yn y gwledydd a'r rhanbarthau i sbarduno twf ledled y DU, a datblygu sgiliau sy'n cefnogi'r economi greadigol.**

- Cytuno'n gryf - Dylai'r BBC yn bendant ddefnyddio ffi'r drwydded i ariannu amrywiaeth eang o fanteision i'r DU a'r economi greadigol.
- Cytuno - Dylai'r BBC ddefnyddio ffi'r drwydded i ariannu amrywiaeth eang o fanteision i'r DU ac i'r economi greadigol.
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno - Dim barn y naill ffordd na'r llall.
- Anghytuno - Ni ddylai'r BBC ddefnyddio ffi'r drwydded i ariannu amrywiaeth eang o fanteision i'r DU a'r economi greadigol.
- Anghytuno'n gryf - Yn bendant, ni ddylai'r BBC ddefnyddio ffi'r drwydded i ariannu amrywiaeth eang o fanteision i'r DU a'r economi greadigol.
- Ddim yn siŵr

**27. I ba raddau ydych chi'n cytuno y dylid diwygio cwmpas ffi'r drwydded i gefnogi cynaliadwyedd hirdymor y BBC, a allai olygu ei gwneud yn ofynnol i fwy o aelwydydd dalu, ond gyda phob un yn talu llai?**

- Cytuno’n gryf - Dylid yn bendant ddiwygio ffi’r drwydded i gefnogi cynaliadwyedd hirdymor y BBC.
- Cytuno - Dylid diwygio ffi’r drwydded i gefnogi cynaliadwyedd hirdymor y BBC.
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno - Dim barn y naill ffordd na’r llall.
- Anghytuno - Ni ddylid diwygio ffi’r drwydded i gefnogi cynaliadwyedd hirdymor y BBC.
- Anghytuno’n gryf - Yn bendant, ni ddylid diwygio ffi’r drwydded i gefnogi cynaliadwyedd hirdymor y BBC.
- Ddim yn siŵr

**28. I ba raddau ydych chi’n cytuno neu’n anghytuno y dylai cynnwys neu wasanaethau’r BBC gynnwys hysbysebion, gan gofio sut gallai hyn ddarparu ffrwd incwm newydd i’r BBC, sut gallai effeithio ar brofiad y gynulleidfa a’r effaith ar ddarlledwyr eraill?**

- Hysbysebu helaeth - Dylai’r BBC hysbysebu ar ei holl gynnwys a gwasanaethau, gan gynnwys ar y teledu a radio byw.
- Rhywfaint o hysbysebu - Dylai’r BBC hysbysebu rhywfaint ar ei gynnwys a’i wasanaethau ar-lein, ond nid ar deledu na radio byw.
- Dim hysbysebu - Ni ddylai’r BBC gynnwys unrhyw hysbysebion ar ei gynnwys na’i wasanaethau.
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno - Dim barn y naill ffordd na’r llall.
- Ddim yn siŵr

**29. A fyddech chi’n fodlon talu am wasanaeth tanysgrifio ychwanegol ar gyfer y BBC, yn canolbwyntio ar gynnwys premiwm ac adloniant, yn ogystal â ffi’r drwydded, gan dybio fod y pris yn debyg i bris gwasanaethau tanysgrifio fideo ar-alw poblogaidd eraill?**

- Cytuno’n gryf - Byddwn yn bendant yn fodlon talu am wasanaeth tanysgrifio ychwanegol ar gyfer y BBC, sy’n canolbwyntio ar gynnwys premiwm ac adloniant.
- Cytuno - Byddwn yn fodlon talu am wasanaeth tanysgrifio ychwanegol ar gyfer y BBC sy’n canolbwyntio ar gynnwys premiwm ac adloniant.
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno - Dim barn y naill ffordd na’r llall.

- Anghytuno - Ni fyddwn yn fodlon talu am wasanaeth tanysgrifio ychwanegol ar gyfer y BBC, sy'n canolbwyntio ar gynnwys premiwm ac adloniant.
- Anghytuno'n gryf - Yn bendant, ni fyddwn yn fodlon talu am wasanaeth tanysgrifio ychwanegol ar gyfer y BBC, sy'n canolbwyntio ar gynnwys premiwm ac adloniant.
- Ddim yn siŵr

**30. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylid cyflwyno consesiynau newydd i aelwydydd sy'n wynebu pwysau ariannol sylweddol?**

- Cytuno'n gryf - Dylai'r llywodraeth yn bendant gyflwyno consesiynau trwyddedu teledu newydd i aelwydydd sy'n wynebu pwysau ariannol sylweddol, hyd yn oed os oes yn rhaid i aelwydydd eraill dalu mwy neu os bydd ansawdd gwasanaethau'r BBC yn gostwng.
- Cytuno - Dylai'r llywodraeth gyflwyno consesiynau trwyddedu teledu newydd i aelwydydd sy'n wynebu pwysau ariannol sylweddol, dim ond os nad oes unrhyw effeithiau negyddol ar y BBC na chostau uwch i aelwydydd eraill.
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno - Dim barn y naill ffordd na'r llall.
- Anghytuno - Ni ddylai'r llywodraeth gyflwyno consesiynau trwyddedu teledu newydd i aelwydydd sy'n wynebu pwysau ariannol sylweddol.
- Anghytuno'n gryf - Yn bendant, ni ddylai'r llywodraeth gyflwyno consesiynau trwyddedu teledu newydd i aelwydydd sy'n wynebu pwysau ariannol sylweddol.
- Ddim yn siŵr

**31. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylid defnyddio technoleg i gefnogi cydymffurfiad, er enghraifft drwy ei gwneud yn ofynnol i aelwydydd sy'n defnyddio BBC iPlayer roi manylion eu trwydded deledu?**

- Cytuno'n gryf - Dylid yn bendant ddefnyddio technoleg i gefnogi cydymffurfiad, er enghraifft dylai system mewngofnodi BBC iPlayer yn bendant ei gwneud yn ofynnol i aelwydydd sy'n defnyddio'r gwasanaeth roi manylion eu trwydded deledu.
- Cytuno - Dylid defnyddio technoleg i gefnogi cydymffurfiad, er enghraifft dylai system mewngofnodi BBC iPlayer fynnu bod aelwydydd sy'n defnyddio'r gwasanaeth yn rhoi manylion eu trwydded deledu.
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno - Dim barn y naill ffordd na'r llall.

- Anghytuno - Yn bendant, ni ddylid defnyddio technoleg i gefnogi cydymffurfiad, er enghraifft ni ddylai system mewngofnodi BBC iPlayer ei gwneud yn ofynnol i aelwydydd sy'n defnyddio'r gwasanaeth roi manylion eu trwydded deledu.
- Anghytuno'n gryf - Yn bendant, ni ddylid defnyddio technoleg i gefnogi cydymffurfiad, er enghraifft yn bendant, ni ddylai system mewngofnodi BBC iPlayer ei gwneud yn ofynnol i aelwydydd sy'n defnyddio'r gwasanaeth roi manylion eu trwydded deledu.
- Ddim yn siŵr

**32. Oes gennych chi unrhyw safbwyntiau eraill ar fodel cyllido'r BBC yr hoffech eu rhannu? Yn eich ymateb, efallai yr hoffech egluro pam eich bod yn cytuno neu'n anghytuno â'r newidiadau posibl uchod neu awgrymu model cyllido gwahanol.**

Mae darlledu yn chwarae rhan hollbwysig wrth hyrwyddo ieithoedd rhanbarthol a lleiafrifol ar draws y byd, ac yng Nghymru yn arbennig. Mae Llywodraeth y DU wedi llofnodi'r Siarter Ewropeaidd ar gyfer Ieithoedd Rhanbarthol neu Leiafrifol, ac ymhlith y cymalau sy'n berthnasol i'r Gymraeg mae Erthygl 11 – Y Cyfryngau. Mae'r adran hon yn cynnwys cymalau sy'n cyfeirio at egwyddorion pwysig yng nghyd-destun darlledu mewn ieithoedd rhanbarthol neu leiafrifol.

Rhaid cofio bod y Gymraeg yn bodoli ochr yn ochr ag iaith sydd drechaf yn y diwylliant poblogaidd byd-eang, a hynny yn arbennig wrth ystyried dylanwad darlledu a'r cyfryngau Saesneg. Mae darlledu Cymraeg yn ddibynnol ar y gwasanaethau hynny sy'n cael eu hariannu gan ffi'r drwydded. Nid oes modd dibynnu ar ddarpariaeth fasnachol. Mae hyn yn glir o un o sgil effeithiau Deddf Darlledu 2024, nad oes gan Ofcom bellach y gallu i fynnu bod gwasanaethau radio masnachol yn cynnig gwasanaethau cyfrwng Cymraeg. Canlyniad hyn yw bod rhai gwasanaethau radio masnachol wedi rhoi'r gorau i ddarlledu Cymraeg dros y blynyddoedd diwethaf.

Mae darlledu Cymraeg yn eithriadol o bwysig o safbwynt amlygrwydd y Gymraeg a normaleiddio cyfleoedd dyddiol i bobl glywed a defnyddio'r Gymraeg. Mae'r rôl hwnnw yn gwbl allweddol heddiw o ystyried amlygrwydd y cyfryngau digidol yn ein bywydau.

Nid yn unig y mae darlledu Cymraeg yn darparu newyddion, gwybodaeth ac adloniant i siaradwyr Cymraeg, gan roi drych a mynegiant i'w dyheadau a'u bywydau, mae hefyd yn denu siaradwyr newydd ac yn eu cefnogi. Mae'n hanfodol gwarchod y ddarpariaeth hon a'i datblygu.

S4C yw'r unig ddarlledwr teledu cyhoeddus cyfrwng Cymraeg ac mae perthynas agos rhwng S4C a'r BBC. Mae Deddf Darlledu 1990 yn ei gwneud yn ofynnol i'r BBC ddarparu dim llai na 520 awr o gynnwys i S4C bob blwyddyn. Y BBC hefyd yw prif

ddarparwr cynnwys cyfrwng Cymraeg ar y radio, trwy Radio Cymru a Radio Cymru 2, a'r unig un sy'n darlledu yn Gymraeg yn unig.  Ar lein, mae'r ddwy orsaf radio hyn ar gael ar BBC Sounds a chynnwys S4C ar BBC iPlayer ac ar S4C Clic.

Dengys adroddiad blynyddol S4C ar gyfer 2024/25 mai cyrhaeddiad wythnosol y sianel oedd 156,000 ymhlith siaradwyr Cymraeg yng Nghymru a 306,000 yn gyfan gwbl yng Nghymru. Ar draws y DU, y cyrhaeddiad wythnosol oedd 454,000. Roedd y ffigurau gwylio ar Clic ac iPlayer ar eu huchaf erioed, gyda 669,000 o oriau ar Clic a 3,807,000 ar iPlayer.

Mae strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru yn disgrifio rôl allweddol y cyfryngau darlledu wrth adfywio'r Gymraeg yng Nghymru a phwysigrwydd rôl darlledwyr cyhoeddus o ran cynnwys Cymraeg a chodi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg.

Mae S4C wedi sefydlu partneriaeth iaith â Llywodraeth Cymru ac eraill i helpu cyflawni ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gyrraedd miliwn o siaradwyr erbyn 2050. Esgorodd hyn ar gydweithio rhwng y sianel a chyrff fel y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Mae hyn wedi arwain at ddatblygu adnoddau pwrpasol ar gyfer dysgwyr i gyd-fynd â nifer o gyfresi poblogaidd perthnasol. Trwy weithio gydag Adnodd a chyrff eraill, mae S4C hefyd yn helpu i ddatblygu deunyddiau penodol ar gyfer addysg Gymraeg, gan gefnogi'r cwricwlwm yng Nghymru.

Mae'r cyfryngau digidol a darlledu yn bwysig iawn ym mywydau plant a phobl ifanc heddiw. Mae heriau sylweddol i ddenu plant a phobl ifanc i wylio, darllen a gwrando ar gynnwys Cymraeg, yn enwedig o ystyried dylanwad darlledu a'r cyfryngau Saesneg. Er hynny, mae tystiolaeth a gasglwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg yn dangos bod plant a phobl ifanc yn dymuno gwylio, darllen a gwrando drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae gwasanaethau ar-lein S4C yn hanfodol i ddenu pobl ifanc at y gwasanaeth. O ystyried poblogrwydd gwasanaeth Hansh ar Facebook, TikTok ac YouTube, er enghraifft, rhaid pwysleisio pwysigrwydd y gwasanaethau hyn o ran darparu cynnwys a phrofiadau cyfrwng Cymraeg i blant a phobl ifanc. Dylid sicrhau bod y BBC ac S4C yn cyfathrebu yn y dull mwyaf effeithiol posibl gyda phlant a phobl ifanc er mwyn sicrhau bod eu cynnwys cyfrwng Cymraeg yn amlwg ac yn ddeniadol iddynt.

Mae'r cyfryngau darlledu yn rhoi troedle economaidd pwysig i'r Gymraeg drwy roi gwerth i sgiliau Cymraeg yn y gwaith a chynnig cyfleoedd gwaith yn y Gymraeg. Mae'r sector diwydiannau creadigol yn faes cyflogaeth lle gwelir galw clir am siaradwyr Cymraeg.

Mae cyfraniad economaidd ehangach gan y diwydiant darlledu Cymraeg yn cynnwys cefnogi cwmnïau annibynnol i dyfu a chefnogi cadwyni cyflenwi mewn ardaloedd ar draws Cymru. Mae'r cyfraniad economaidd hwn yn arbennig o arwyddocaol yn y

cymunedau hynny lle mae'r Gymraeg ar ei chryfaf. Heb os, mae'r diwydiant darlledu Cymraeg yn cyfrannu at hyfywedd y cymunedau hyn.

Dengys adroddiad gan gwmni Wavehill ar gyfer 2024/25 bod S4C wedi cefnogi dros 2,500 o swyddi cyfwerth ag amser llawn a chyfrannu £150.3 miliwn mewn gwerth ychwanegol gros i economi Cymru. Roedd hyn yn cynyddu i 2,630 o swyddi a £161.3 miliwn mewn gwerth ychwanegol gros ledled y Deyrnas Unedig.

Cytunwn, fel y nodwyd uchod, y dylai'r BBC wneud mwy i ledaenu ei wariant, ei weithgareddau a'i benderfyniadau ar draws gwledydd a rhanbarthau'r DU. Cytunwn hefyd y dylai'r BBC ddatblygu strategaethau hirdymor ar gyfer datblygu'r sector creadigol rhanbarthol, gan bwysleisio pwysigrwydd y Gymraeg yng nghyd-destun unrhyw strategaeth i Gymru.

Pryderwn am yr opsiwn a drafodir yn y Papur Gwyrdd i gyflwyno gwasanaeth tanysgrifio ychwanegol ar gyfer y BBC, gan y gallai greu risg bod cynulleidfaoedd Cymraeg yn colli mynediad at gynnwys yn y Gymraeg. Yn gryno, byddai unrhyw benderfyniad a fyddai'n golygu llai o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn andwyol i ffyniant y Gymraeg a'i chymunedau.

Mae darlledu Cymraeg yn ddibynnol ar wasanaethau darlledu a ariennir yn gyhoeddus. Mae sicrwydd ariannol tymor hir yn hollbwysig i ddarlledu Cymraeg, gan gynnwys S4C a Radio Cymru. Rhaid darparu cyllid digonol i gynnal gwasanaeth cynhwysfawr, annibynnol, o safon uchel a sicrhau bod modd arloesi a chyfrannu at ddatblygu technolegau iaith Gymraeg. Mae hyn yn hanfodol i siaradwyr Cymraeg yn nhermau iaith, diwylliant ac economi, a'u ffyniant yn y dyfodol.